



# CWTSH MYRDDIN

*Rhifyn – 24.10.2018*

## Gwasanaeth Diolchgarwch

I gloi hanner tymor yr Hydref cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch blynyddol yn yr ysgol. Agorwyd y gwasanaeth gyda Harri Jones yn croesawu'r Parchedig Beti Wyn James i rannu neges y gwasanaeth o ddiolch a helpu eraill. Cawsom sgets fer i ddechrau gan ddisgyblion blwyddyn 10 yr Adran Ddrama. Cafwyd darlleniadau gan y prif swyddogion Harri Jones, Efa Jones, Christopher Evans, Catrin Lewis ac Iestyn McAvoy. Cafwyd eitem gerddorol gan y Côr Iau – yn canu "Cydiwn ein dwylo" dan arweiniad Mrs Nia Evans. Diolch i bawb am eu cyfraniad ac yn enwedig i'r Parchedig Beti Wyn James am ei neges ddiddorol a phwrpasol. Yn dilyn ein gwasanaeth Diolchgarwch, derbyniodd yr ysgol nifer o gyfraniadau tuag at fanc bwyd Caerfyrddin fydd yn cael eu dosbarthu i'r gymuned leol.



## Newyddion Teithiau'r Adran Astudiaethau Crefyddol

### Taith blwyddyn 7 i'r Synagog a'r Gwrdwara

Dydd Iau 11eg o Hydref 2018 aeth blwyddyn 7 ar daith i'r Gwrdwara a'r Synagog yng Nghaerdydd. Yn gyntaf cyrhaeddodd y Gwrdwara ble cawsom groeso mawr gyda bisgedi, brecheddau a sgwosh. Roedd angen i ni orchuddio ein pen gyda sgarff a thynnu ein hesgidiau fel arwydd o barch. Aethom i'r ysgol i'r neuadd weddio ac yno roedd angen i'r bechgyn fynd i'r ffordd a'r merched y ffordd arall. Eisteddai'r bechgyn ar merched ar wahân ar garped moethus yn dawel. Roedd Sikh yn eistedd gyda "chauri" yn ei chwifio fe nôl a blaen dros y Guru Granth Sahib. Cawsom wasanaeth



byr gyda cherddoriaeth a sgwrs am hanes sefydlu'r Gwrdwara yng Nghaerdydd. Diolch yn fawr i Mr Bhogal a phawb arall am eu cyfeillgarwch.

Nesaf aethom i'r Synagog Ddiwygiedig lle cawsom ein croesawu gan Iddew o'r enw Mr David Cohen. Arferai'r Synagog fod yn Gapel ac o'r tu allan roedd yn edrych fel Capel heb law fod Seren Dafydd uwch ben y drws. Roedd angen y bechgyn i gyd i wisgo cipa, sef cap bach cyn mynd i mewn i'r Synagog, eto fel arwydd o barch. Roedd ffenestri lliw prydfferth o gwmpas y Synagog yn adrodd hanes o'r Hen Destament. Dangosodd e'r bimah lle'r oedd y rabi yn sefyll, yr arch lle'r oedd y Torah yn cael ei gadw ac roedd y deg gorchymyn ar ben yr arch mewn Hebraeg. Goleuai'r lamp a elwir yn Ner tamid sef y golau tragwyddol am ddau ddeg pedwar awr y dydd a hongiai o'r nenfwd. Cawsom weld sgrôl y Torah a oedd yn drwm iawn, a chyfle i esgus darllen y Torah gan ddefnyddio'r Yad sef pwyntydd.

Roedd wedi bod yn ddiwrnod diddorol iawn yn gwrando a dysgu am y gwahanol draddodiadau crefyddol a hoffem ar ran blwyddyn 7 ddiolch i Mrs Gwenan Morgans a'r staff am fynd a ni ar y daith.

*Adroddiad gan Ela Bowen-Price a Hallie Green 7-5*

## Ymweliad blwyddyn 8 a Chadeirlan Tŷ Ddewi

Bore dydd Iau, 27ain o Fedi ar ddiwrnod braf a chynnes, aeth blwyddyn 8 ar daith Astudiaethau Crefyddol i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi, yn Sir Benfro. Cawsom ein croesawu



gan Mrs Janet Ingram ar Canon Leigh Richardson oedd wedi trefnu gwahanol weithgareddau i ni o amgylch y Gadeirlan. Yn ystod y dydd roeddem wedi dysgu ffeithiau diddorol nid oedden yn gwybod am Dewi Sant a hefyd am Seintiau eraill fel Sant Padrig a Sant Andrew. Cawsom weld rhannau gwahanol yr Eglwys a gweld beddi pobl a oedd wedi gwneud gwrthiau yn debyg i Dewi Sant. Cawsom wybod bod dwy daith bererindod i Eglwys Gadeiriol Tŷ Ddewi yn gyfwerthag un i Jerwsalemac. Amser cinio cawsom bicnic ar lawnt y Gadeirlan a chyfle i ymlacio a sgwrsio gyda'n ffrindiau.

Yn y prynhawn, cawsom gystadleuaeth helpa drysor rhwng y dosbarthiadau eraill. Roedd rhaid i bob tîm fynd o amgylch y Gadeirlan gan ddod o hyd i gliwiau gan gofnodi'r atebion ar y daflen. Ar ôl gorffen yr helpa drysor cawsom lun tu allan i'r Eglwys Gadeiriol cyn dechrau ar ein ffordd nôl i'r ysgol. Cawsom lawer o hwyl a hoffem fynd eto!

*Adroddiad gan Erin Jones, Nia Jones ac Elin Harries 8-5*

## Bore Coffi MacMillan

Bob blwyddyn ers chwarter canrif mae Elusen MacMillan yn annog pobol i ymuno ym More Coffi Mwy'r Byd drwy gynnal digwyddiad yn eu lle gwaith. Trefnwyd y Bore Coffi yn yr ysgol ar fore Gwener, 28ain o Fedi ar gyfer y staff a'r chweched. Roedd y byrddau yn frith o gacennau blasus yn barod ar gyfer y bore. Cafwyd cefnogaeth arbennig i'r ymdrech ac roedd yr ystafell llawn bwrlwm drwy'r amser egwyl estynedig. Gyda thâl mynediad yn cynnwys paned o de neu goffi a chacennau blasus, ynghyd â raffl codwyd y swm anhygoel o £820. Diolch i bawb am eu cefnogaeth



## CD i ddathlu deugain mlynedd Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin



I ddathlu deugain mlynedd o addysg Gymraeg yn y dref mae Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin yn rhyddhau CD ar y 1af o Ragfyr mewn cyngerdd arbennig o gorau'r ysgol a'r tenor enwog Rhys Meirion a'r gyflwynwraig a'r cyn-ddisgybl Heledd Cynwal. Cyfuniad o gorau'r ysgol sy'n canu ar y CD arbennig hon a baratowyd ar gyfer yr achlysur. Braff bydd clywed y gerdd gomisiwn ar gyfer y dathliadau gyda geiriau gan y Prifardd Tudur Dylan Jones a fu'n gyn-athro a chyn-riant a'r gerddoriaeth gan Mr Eric Jones, cyn-bennaeth yr ysgol. Pleser bydd cael clywed corau'r disgyblion a'r côr staff yn ogystal yn

canu amrywiaeth o ganeuon. Bydd cyfle i bawb i brynu'r CD ar Ragfyr y 1af yn y Lyric neu o'r ysgol yn dilyn y dyddiad hwnnw. Dyma'r anrheg Nadolig berffaith i chi.

